**Ken Skates AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**
**Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At holl Aelodau'r Cynulliad

12 Gorffennaf 2016

Annwyl Aelod,

Yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 15 Mehefin, ymrwymais i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drydaneiddio Prif Linell Reilffordd y Great Western.

Y bwriad oedd cwblhau'r gwaith o drydaneiddio'r llinell reilffordd rhwng Llundain ac Abertawe yn ystod cyfnod cyllido cyfredol Network Rail rhwng 2014 a 2019. Wrth i Syr Peter Hendy adrodd ym mis Tachwedd 2015 am ei adolygiad o raglen fuddsoddi Network Rail, amlinellodd gynnig i drydaneiddio'r llinell reilffordd hyd at Gaerdydd yn ystod y cyfnod cyfredol hwn a gohirio trydaneiddio'r llinell hyd at Abertawe tan y cyfnod cyllido nesaf rhwng 2019 a 2024.

Mynegodd fy rhagflaenydd ei siom am y cynnig hwn wrth Syr Peter Hendy a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth ac rydym bellach yn aros i weld beth fydd yn digwydd ar ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried y mater. Rydym wedi datgan yn glir iawn nad yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â gohirio'r gwaith o gwblhau'r prosiect hwn a byddaf yn achub ar bob cyfle i ailddatgan hynny. Mae manteision amlwg o hoelio ymdrechion ar y cynllun cyfan dros gyfnod dwys a defnyddio cynifer o gerbydau trydan ag y bo modd o'r cychwyn cyntaf, a hynny er budd y teithwyr. Os cadarnheir y bydd oedi cyn trydaneiddio'r llinell reilffordd hyd at Abertawe, byddai Llywodraeth Cymru am gael cadarnhad y byddai'r dyddiad cwblhau newydd yn gynnar yng nghyfnod cyllido 2019-2024.

Yn gywir,

**Ken Skates AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.